

Gwylie gartre egsoftig!

Yn ei herthygl diweddaraf i'r golofn hon, y mae Polly Zipperlen yn ystyried haul, môr, golygfeydd, adar, ci bach a chanlyniadau gwyliau'r teulu eleni



Y mae'r papurau dydd Sul wedi eu llenwi gyda chynigiadau gwyliau gartre deniadol, ond i fod yn wahanol fe fathodd fy mab y gair 'holistay', ac fel llawer o Brydeinwyr eraill, fe benderfynom aros yn agos at adre am ein gwyliau blynyddol. Yr oedd hyn wedi siom fawr ar fy rhan i, oherwydd yr oedd 2020 yn mynd i fod yn flwyddyn ymweliad hir - ddisgwylidig egsoftig â Malawi gyda grŵp ieuencid lleol. Ffrwydrodd Covid a bydd rhaid i Malawi ddisgwyl. Ond, wele yn wir, wedi oedi coglesiol y Llywodraeth, agorwyd Ewrop – hwre! Cododd fy nghalon Francoffeil a'r cyfle i fwynhau rhuthro o gwmpas archfarchnadoedd yn fy hoff lefydd.

Siom eto, a'm meibion, yn awchu am ail-ymuno â'u cefndryd wedi cloi blinedig, yn gofyn yn daer am uniad teuluol, a'm chwaer yng nghyfraith, sy'n llawer mwy synhwyrol na fi, yn cynnig lleoliad yn y DU. Y mae tri o bedwar ohonom yn gweithio i GIG, beth os fydd y sefyllfa 'n troi ar ei ben i waered a bydd rhaid i ni fod mewn cwarantîn ar fyr rybudd wedi dychwelyd? Fe roddais i mewn ac fe chiliom ar wefannau gwyliau am fwthyn, ond wedi aros am hanner eiliad, cododd y pris o £1800 i £3000 yr wythnos!



'Gadewch i ni aros gartre a chael hwyl!' clywais fy hunan yn dweud. Mae ein Rheithordy yn fawr iawn a chysurus, yn gallu cynnig llety i wyth o bobl a chi yn rhwydd- neu dyna beth oeddwn i'n feddwl. Er mwyn cynnwys yr 'egsoftig' fe logais i 'hot-tub', prynu simne tu allan, llogi 'rib-ride' (gyda mygydau) a threfnu gwerth wythnos o weithgareddau'n llawn cyffro a blinedig. Y peth mwyaf blinedig oedd y clirio. Mae haenen denau o dywod dros pob peth, bwledi Nerf yn lle blodau a'r ci bach heb fod yn egsoftig o gwbl!

Yr ail wythnos o'r gwyliau oedd ymweld â'n rhieni yn Sussex a Llundain, gan fwynhau gwres egsoftig y de-ddwyrain. Yr oedd y tywydd braf wedi annog ymweliad gan ymwelwyr gardd egsoftig, a ddarganfuwyd gan dad Marcus, a oedd yn synnu at ein ymateb di-gynnwrf i'r Nico bach yr oedd yn dangos i ni. Ond fe'n synnwyd wrth fynd dros ben llestri wrth weld y parotanod (egsoftig o'r diwedd) sy nawr yn gyffredin yn ardal Ddwyrain Llundain fy mam, ac sy heb ei synnu hi o gwbl.

Efallai nad yw gweithgareddau egsoftig yn plesio wedi'r cwbl. Mewn gwirionedd, y mae'r plant i gyd wedi datblygu dipyn o frech ar y croen, sy'n mynd yn ôl at yr 'hot tub'! Oes unrhywun yn ffansio Ffrainc hanner tymor?